



## **MANYLEBAU TECHNEGOL PORTH ANTHEM**

1. Cefndir
2. Marchnad Darged
3. Datganiad Gwerth
4. Cynnyrch Sylfaenol Hyfyw sy'n Ofynnol
5. Dyluniad Craidd
6. Nodweddion Craidd
7. Heriau ac Ystyriaethau
8. Gwybodaeth Ychwanegol

### **1. Cefndir**

#### **Yr Angen**

Mae pandemig COVID-19 wedi gwaethygu'r ymdeimlad o arwahanrwydd y mae pobl ifanc yn ei brofi dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae iechyd meddwl wedi bod yn bryder gwirioneddol ar draws y pandemig, gyda phobl ifanc yn cael eu torri i ffwrdd o gymunedau ysgol a rhwydweithiau o ffrindiau. Ym mis Mai 2021, gwnaeth Adroddiad Achub y Plant ganfod bod gan Gymru rai o'r cyfraddau tlogi plant uchaf yn y Deyrnas Unedig. Mae cerddoriaeth yn un ffordd y gall pobl ifanc fynegi eu hunain, cyweirio eu hwyliau a dod i gyswllt â chymuned ehangach.

Mae Anthem yn creu atebion i fynd i'r afael â'r darnio yma drwy roi lleisiau pobl ifanc wrth wraidd popeth a wnawn a datblygu cyfleoedd i rwydweithio ledled Cymru.

## 2. Marchnad Darged

Roedd ymgynghoriad Anthem â phobl ifanc yn 2020 yn archwilio'r hyn yr oedd pobl ifanc yn teimlo oedd ei angen arnynt i'w helpu i symud ymlaen yn y diwydiant cerddoriaeth.

Dywedodd pobl ifanc wrthym yn glir iawn fod cerddoriaeth yn eithriadol o bwysig iddynt. Fodd bynnag, mae cerddoriaeth yn yr ystafell ddosbarth yn dilyn llwybr penodol iawn sydd ond yn apelio go iawn at bobl ifanc sy'n cael gwersi drwy'r traddodiad clasurol gorllewinol ac nad yw'n edrych y tu hwnt i gerddoriaeth fel disgyblaeth ymarferol. Mae gyrfaedd a llwybrau i mewn i'r diwydiant cerddoriaeth yn aneglur ac nid oes cefnogaeth ar gael i bawb o ran datblygiad cerddorol personol.

Dywedodd pobl ifanc wrthym y byddent yn gwerthfawrogi cymorth mewn nifer o feysydd gan gynnwys:

- mwy o gyngor ar yrfaedd
- sut i ddatblygu gwahanol sgiliau'r diwydiant
- gwybodaeth allweddol am sut i gyhoeddi a marchnata eich cerddoriaeth
- y cyfle i gysylltu â phobl ifanc eraill sy'n creu cerddoriaeth ledled Cymru
- ffordd i ddarganfod beth yw'r cyfleoedd presennol yng Nghymru

# Proffiliau'r Farchnad Darged



**anthem.**

## Kat Griffidd

- Age: 21
  - Location: Aberystwyth, Wales
  - Profession: BA Journalism Student
  - Hobby: Singer, Song-Writer
- **Gateway Benefit:** Offers the opportunity to collaborate with music producers and sound engineers. Kat has always struggled to find peers to collaborate with to further her dream of being an artist. Kat can finally share her work to get constructive feedback and revamp it into a professional track.



**anthem.**

## Gabin Kigolo

- Age: 18
  - Location: Caerphilly, Wales
  - Profession: A-Levels Student
  - Hobby: Music Producer / Amateur Sound Engineering.
- **Gateway Benefit:** Gabin can access resources to learn about building a career in the music industry. He can access opportunities to earn via freelance gigs. Can participate in talks and events with industry professionals, and expand his network.

### Kat Griffidd

- **Oedran:** 21
  - **Lleoliad:** Aberystwyth
  - **Proffesiwn:** Myfyriwr BA Newyddiaduraeth
  - **Hobi:** Canu, cyfansoddi caneuon
- **Mantais y Porth:** Mae'n cynnig y cyfle i gydweithio â chynhyrchwyr cerddoriaeth a pheirianwyr sain. Mae Kat wastad wedi'i chael yn anodd dod o hyd i gyfoedion i gydweithio â nhw er mwyn gwireddu ei breuddwyd o fod yn artist. O'r diwedd, gall Kat rannu ei gwaith i gael adborth adeiladol

### Gabin Kigolo

- **Oedran:** 18
  - **Lleoliad:** Caerffili
  - **Proffesiwn:** Myfyriwr Safon Uwch
  - **Hobi:** Cynhyrchu cerddoriaeth / peirianeg sain amatur
- **Mantais y Porth:** Gall Gabin gael mynediad i adnoddau i ddysgu am ddatblygu gyrfa yn y diwydiant cerddoriaeth. Gall ganfod cyfleoedd i ennill arian drwy gigs llawrydd. Gall gymryd rhan mewn sgysiau a digwyddiadau gyda gweithwyr

a'i ailwampio i greu trac proffesiynol.	proffesiynol y diwydiant, ac ehangu ei rwydwaith.
---	---

### 3. Gosodiad Gwerth

Bydd y Porth Digidol yn arbed amser i ddefnyddwyr wrth chwilio am wybodaeth am gymryd rhan yn y diwydiant cerddoriaeth. Bydd hefyd yn adnodd dibynadwy o'r cynnwys diweddaraf am lwybrau i wahanol rolau yn y diwydiant cerddoriaeth.


Bydd defnyddwyr hefyd yn gallu manteisio ar gyfleoedd ariannu i leihau ymhellach y rhwystr i gael mynediad i adnoddau'r diwydiant cerddoriaeth. Mae'r holl gynnwys hwn hefyd yn cael ei ddarparu am ddim ar y Porth Digidol.

### 4. Cynnyrch Sylfaenol Hyfyw sy'n Ofynnol

Mae gwefan y Porth Digidol yn estyniad o brif safle Anthem sy'n ceisio creu cyfleoedd i holl aelodau'r diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru gyfnewid gwybodaeth a rhwydweithio. I sicrhau bod y cynnyrch am ddatrys problem, sef llenwi bwlch mawr ei angen mewn addysg a datblygiad Cerddoriaeth Ieuenctid yng Nghymru, ymgynghorodd Anthem â phobl ifanc yn 2020 gyda'r nod o helpu pobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau i gerddoriaeth a'u helpu i ddeall yr hyn yr oedd ei angen arnynt i'w helpu i gymryd y camau nesaf.

Mae'r Porth Digidol yn rhwydwaith cerddoriaeth ieuenctid traws-genre ar-lein ac yn wefan sy'n rhannu dealltwriaeth o faes creu cerddoriaeth a llwybrau gyrfa yn y diwydiant, yn hwyluso'r arfer o rannu cerddoriaeth a dysgu gan gymheiriaid ac yn cynnig mynediad at hyfforddiant, mentora a chyfleoedd yn y diwydiant cerddoriaeth.

Isod, dyma ddrafft o fap safle o sut y gallai'r wefan edrych pe bai'n cael ei gweithredu. Nid dyma yw allbwn terfynol Cynnyrch Sylfaenol Hyfyw y prosiect, ond mae'n rhoi syniad cychwynnol o beth allai canlyniad y prosiect fod.



		PORTH DIGIDOL			
HAFAN	AMDANOM NI	DIGWYDDIADAU	CYFLEOEDD	BLOG	CYSYLLTU Â NI
		YMGORFFORI: EventBrite		CATEGORïAU	GWAHODDIAD DISCORD
			NEWYDDION Y DIWYDIANT CERDDORIAETH	BEACONS CYMRU	PODLEDIADAU

## 5. Dyluniad Craidd

Dylai pobl ifanc allu uniaethu â'r gwaith gweledol a dylai'r gwaith gweledol fod yn eu hadlewyrchu, ynghyd â sut mae cerddoriaeth yn effeithio arnynt.

Mae Anthem yn disgwyl yr allbynnau canlynol:

- Dyluniad sy'n cysylltu â Brand Anthem ond a fydd yn ddiddorol i'n cynulleidfa ar gyfer Porth Anthem ac fydd yn hygyrch
- Ymgysylltiad â Thîm Anthem a'r Fforwm Ieuenctid i greu, mireinio a chwblhau'r platfform gwe

- Delweddau mewn amryw fformatau gwahanol i'n galluogi i'w defnyddio ar y wefan, y cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau print
- Datblygu set o dempledi sy'n caniatáu i ni ddiweddarau'r wefan yn hawdd â chynnwys newydd

## 6. Nodweddion Craidd

### Platfform Gwe

Bydd Porth Anthem yn cychwyn o wefan bresennol Anthem, ond bydd hefyd ganddo ei URL ei hun. Bydd ganddo'r nodweddion canlynol:

- Bydd iddo amrywiaeth o adrannau gwahanol ynghyd â chynnwys wedi'i fewnblannu, ar ffurf fideo a cherddoriaeth, a dolenni i rwydweithiau eraill a chyfryngau cymdeithasol.
- Rhaid iddo fod yn ymatebol ac wedi'i optimeiddio i'w ddefnyddio ar gyfrifiadur, llechen neu ffôn symudol.
- Dwyieithog – yn cynnig Cymraeg a Saesneg.
- Mae angen iddo fod wedi'i integreiddio ac yn galluogi defnyddwyr i glicio drwy sianeli/ffrydiau cyfryngau cymdeithasol Anthem.
- Mae angen iddo fod wedi'i gysylltu â'n gweinydd Discord.
- Rhaid i'r platfform fod wedi'i gysylltu â'n tudalen Eventbrite.
- Dylid darparu sesiwn hyfforddi ar ddefnyddio System Rheoli Cynnwys y wefan newydd ar ôl ei lansio.

### Gofynion Eraill

- Dylai'r wefan allu cysylltu â [Map Lleoliadau Cerddoriaeth](#) ac o bosibl gallai gael ei arddangos ar un o dudalennau Anthem fel y gall defnyddwyr chwilio am leoliadau cerddoriaeth yn eu hardal hwy.

# 7. Heriau ac Ystyriaethau

## Hygyrchedd ar y We

Dylai'r wefan allu darparu ar gyfer defnyddwyr o wahanol gefndiroedd, o ddefnyddwyr nad ydynt yn anabl i bobl sydd â namau dysgu a chorfforol. Dyma rai ystyriaethau ar gyfer hyn:

- Dylai'r wefan fod yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Dylid optimeiddio wefan i'w defnyddio ar bob platfform, gan gynnwys ffôn symudol a llechen heb gymorth llygoden.
- Dylai fod testun amgen ar gyfer delweddau'r wefan.
- Rhaid i'r lliwiau a ddewisir yn y dyluniad ystyried defnyddwyr sydd â nam ar eu golwg.
- Peidiwch â defnyddio cyfryngau chwarae awtomatig gan ystyried defnyddwyr sydd â nam ar eu clyw a hefyd rhag i ddefnyddwyr gael eu cythruddo gan sŵn uchel wrth lwytho tudalen.
- Rhoi enwau unigryw a disgrifiadol i'r dolenni.

## Cydnawsedd â Phorwyr

Dylai'r wefan allu gweithio ar draws pob prif borwr, h.y. Chrome, Edge, Firefox a Safari.

## Defnyddiadwy

Dylai'r wefan fod yn hawdd ei llywio yn ogystal â bod yn llyfn i'w defnyddio o ran symud rhwng tudalennau a dylai'r defnyddwyr hefyd allu rhyngweithio ag elfennau'r wefan yn hawdd. Hefyd, byddai'n wych cael dogfen ganllaw a fyddai'n dangos i'r gweinyddwyr sut i ychwanegu cynnwys i'r wefan.

## Darllenadwy

Dylai'r wefan fod yn hawdd ei darllen. Dylai'r datblygwyr ystyried Ffurffdeip, Cynllun neu Ddyluniad a Lliwiau.

## Nodweddion Allanol

Ar gyfer y wefan, hoffem gael tudalen ddigwyddiadau sydd yn ymgorffori Eventbrite i ddangos yr holl ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal gan Anthem ar dudalen

'Digwyddiadau' a gall y defnyddwyr allu archebu lle mewn digwyddiad/cyfarfod drwy'r wefan.

Nodwedd ychwanegol arall fyddai cael botwm gwahoddiad Discord sydd i'w weld ar y wefan sy'n llywio'r defnyddwyr yn awtomatig i Weinydd Discord y Porth Digidol.

## Cost Ychwanegol

Dyma'r costau y tu allan i ffi comisiwn y datblygwr. Rydym am i'r *code stack* a ddefnyddir i ddatblygu'r wefan fod yn fforddiadwy wrth ystyried cynnal a chadw'r wefan ar ôl ei chynhyrchu a byddai'n fuddiol pe bai'r datblygwr yn gallu rhoi dyfynbris ar gyfer costau misol/blynyddol cynnal a chadw'r wefan ar ôl cynhyrchu e.e. cronfa ddata cwmwl fel AWS neu debyg.

## 8. Gwybodaeth Ychwanegol

Fel y soniwyd eisoes, rydym yn ystyried gweithredu gweinydd Discord sydd â dolen wahodd ar y wefan sy'n llywio i'r gweinydd. Bydd y gweinydd yn ffordd i gyfathrebu i anfon cyhoeddiadau, cyfleoedd a rhwng pobl ifanc sy'n defnyddio'r platfform. Bydd ganddo frîff technegol ar wahân i friff y wefan.

I fynegi diddordeb mewn datblygu'r nodwedd hon o'r prosiect, anfonwch e-bost i Aisha Kigwalilo: [aisha@anthem.cymru](mailto:aisha@anthem.cymru)